HOPE
Helping others participate and engage

age connects wales.

age Cymru
Creating an age friendly Wales

The HOPE Project (Helping others participate and engage) is a partnership project between Age Cymru, Age Cymru local partners and Age Connects Wales partners throughout Wales. HOPE is funded by Welsh Government under the Sustainable Social Services Grant until the end of March 2023.

This exciting new project will be supporting people to engage, participate, gain information, have their voices heard, understand their rights, make choices, be involved, share experiences, raise awareness of advocacy, and develop skills and knowledge.

What will HOPE be delivering?

- HOPE will deliver advocacy support at a community level through a range of advocacy models by recruiting and then fully training and supporting project volunteers. HOPE aims to support people at an early stage in their issues or concerns to prevent them slipping into crisis. We want to help people to get the help and support they need at the earliest point and we know that the current COVID-19 pandemic will have had a big impact on the lives of older people so they might need more support than ever to reengage with their communities and to get access to services as restrictions are lifted.
- HOPE will deliver advocacy for older people (50+) and carers across Wales. HOPE staff and volunteers will also engage with communities who can guide us to make sure the service we provide is right for the needs of older people and carers in their areas. We'll develop forums to support us to do this or we'll work with existing ones where they exist. We don't want to duplicate existing services but rather we want to make sure we work with and complement the existing advocacy providers and forums across Wales.
- HOPE will identify and support Advocacy Ambassadors through the forums, who will promote awareness of rights and choices, and the importance, benefits and outcomes of advocacy. HOPE will promote advocacy in all its forms to show how important it is and what a difference it can make.
- HOPE will establish a programme of training, workshops and events enabling advocates across Wales to further develop their skills and knowledge. Training and workshops will also be available to other professionals who would benefit from greater awareness of advocacy and how to access it.

Where and when will the project be delivering its services?

- This is a Wales wide project but we'll be working across regions with regional staff in place. These regions are:
  - Bridgend, Cardiff, Merthyr Tydfil, Rhondda Cynon Taff and the Vale of Glamorgan
  - Dyfed Powys
  - Gwent
  - North Wales
  - Swansea and Neath Port Talbot
- As this is a new project, we'll need some time to get it all up and running across some very large areas, so even within the regions we'll have to focus our attentions on specific areas of most need in the early stages. We'll then be rolling HOPE out across the regions. Please bear with us as we do this.

How can I find out more?

For more information or if you have any queries please contact us:
advocacy@agecymru.org.uk

Age Cymru is a registered charity 1128436. Company limited by guarantee and registered in Wales and England 6837284. Registered office address Ground Floor, Mariners House, Trident Court, East Moors Road, Cardiff CF24 5TD. © Age Cymru 2020

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

HOPE
Helpu eraill i gymryd rhan ac ymgysylltu

age connects wales.

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar

Partneriaeth yw Prosiect HOPE (Helpu eraill i gymryd rhan ac ymgysylltu) rhwng Age Cymru, partneriaid lleol Age Cymru a phartneriaid Age Connects Wales ledled Cymru. Ariennir Hope gan Lywodraeth Cymru dan y Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy tan ddiwedd Mawrth 2023.

Bydd y prosiect newydd cyffrous hwn yn cefnogi pobl i ymgysylltu, cymryd rhan, caffael gwybodaeth, lleisio eu barn, deall eu hawliau, gwneud dewisiadau, cael eu cynnwys, rhannu profiadau, codi ymwybyddiaeth o eiriolaeth, a datblygu sgiliau a gwybodaeth.

Beth fydd HOPE yn ei ddarparu?

- Bydd HOPE yn darparu cymorth eiriolaeth ar lefel gymunedol drwy ystod o fodelau eiriolaeth gan recriwtio ac yna hyfforddi a chefnogi'n llawn gwirfoddolwyr i'r prosiect. Nod HOPE yw cefnogi pobl yn gynnar gyda'u problemau neu eu pryderon i'w hatal rhag wynebu argyfwng. Hoffem helpu pobl i gael y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt ar yr adeg gynharaf a gwyddom y bydd y pandemig COVID-19 presennol wedi cael effaith fawr ar fywydau pobl hŷn, felly mae'n bosib bod angen mwy o gymorth nag erioed arnynt i ail-ymgysylltu â'u cymunedau a chael mynediad at wasanaethau wrth i gyfyngiadau gael eu llacio.
- Bydd HOPE yn darparu eiriolaeth i bobl hŷn (50+) a gofalwyr ledled Cymru. Bydd staff a gwirfoddolwyr HOPE hefyd yn ymgysylltu â chymunedau a all ein harwain i wneud yn siŵr bod y gwasanaeth a ddarparwn yn briodol i anghenion pobl hŷn a gofalwyr yn eu hardaloedd. Byddwn yn datblygu fforymau i'n cefnogi i wneud hyn neu byddwn yn gweithio â rhai sydd eisoes yn bodoli, os oes rhai. Nid ydym eisiau dyblygu gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli, ond yn hytrach hoffem wneud yn siŵr ein bod yn gweithio â darparwyr a fforymau eiriolaeth sydd eisoes yn bodoli ledled Cymru, ac yn eu hategu.
- Bydd HOPE yn adnabod ac yn cefnogi Llysgenhadon Eiriolaeth drwy'r fforymau, a fydd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o hawliau a dewisiadau, a phwysigrwydd, buddion a chanlyniadau eiriolaeth. Bydd HOPE yn hyrwyddo eiriolaeth yn ei holl ffurfiau i ddangos pa mor bwysig ydyw a pha wahaniaeth y gall ei wneud.
- Bydd HOPE yn sefydlu rhaglen o hyfforddiant, gweithdai a digwyddiadau a fydd yn galluogi eiriolwyr ledled Cymru i ddatblygu eu sgiliau a gwybodaeth ymhellach. Bydd hyfforddiant a gweithdai ar gael hefyd i weithwyr proffesiynol eraill a allai elwa o fwy o ymwybyddiaeth o eiriolaeth a sut i gael mynediad ato.

Ymhle a phryd fydd y prosiect yn darparu ei wasanaethau?

- Dyma brosiect Cymru gyfan, ond byddwn yn gweithio ar draws rhanbarthau gyda staff rhanbarthol yn eu lle. Y rhanbarthau yw:
  - Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot
  - Caerdydd, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful
  - Dyfed Powys
  - Gogledd Cymru
  - Gwent
- Gan fod hwn yn brosiect newydd, bydd angen peth amser arnom i'w sefydlu a'i redeg ar draws rhai ardaloedd mawr, felly hyd yn oed o fewn y rhanbarthau bydd rhaid i ni ganolbwyntio ein ffocws ar ardaloedd penodol sydd â'r angen mwyaf yn ystod y camau cynnar. Byddwn yna'n cyflwyno HOPE ar draws y rhanbarthau. Byddwch yn amyneddgar wrth i ni wneud hyn.

Sut allaf gael rhagor o wybodaeth?

Am ragor o wybodaeth neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni:
advocacy@agecymru.org.uk

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig: 1128436. Mae'n gwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad ein swyddfa gofrestredig Llawr Isaf, Tŷ Mariners, Llys Trident, Heol East Moors, Caerdydd CF24 5TD. © Age Cymru 2020

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government